Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn

**Ffordd Y Grug**
**Llwyncelyn**
**Porth**
**RCT**
**CF39 9TL**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 335 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 243 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 43 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 17.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 2.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 64.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 11/12/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)](https://mylocalschool.gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Llwyncelyn yn gymuned gynhwysol, hapus a gofalgar ble mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn ardderchog. Maent yn ffurfio perthnasoedd cryf â staff a gyda'i gilydd, ac yn dangos parch a chwrteisi ar gyfer pob aelod o gymuned yr ysgol. Mae disgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn siarad am eu profiadau gyda chyffro ac yn mwynhau eu hamser yno. O ganlyniad, mae hyn yn arwain at ymgysylltu cryf ym mywyd yr ysgol.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw'r cydweithio brwd sy'n digwydd rhwng y pennaeth, staff a'r llywodraethwyr i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i holl waith a chymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn meddu ar fedrau Cymraeg cadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac yn defnyddio'r Gymraeg yn gwbl naturiol o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd egwyl.

Mae datganiad cenhadaeth yr ysgol, sef 'Acen. Atgofion. Cred' yn treiddio'n gelfydd yn ei hethos ar draws yr holl ddosbarthiadau. Mae'r pennaeth a'r staff yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu Cymreictod a'i ddathlu, a chânt eu trochi mewn ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol a chreadigol sy'n ehangu gorwelion y disgyblion i gyfleoedd cyfoethog y tu hwnt i'w milltir sgwâr. O ganlyniad, mae'r cyfuniad crefftus o'r agweddau hyn yn gosod sylfaen gadarn i ddisgyblion fagu adenydd erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau iaith, rhifedd a digidol ac yn cyflawni'n dda. At ei gilydd, maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn llwyddiannus ar draws ystod o gyd-destunau diddorol. Er hyn, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau yn annibynnol am sut i gyflwyno eu gwaith.

Un o rinweddau cryfaf yr ysgol yw'r flaenoriaeth sy'n cael ei rhoi i sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o'u hawliau, am bwysigrwydd cydraddoldeb a bod yn ddinasyddion moesol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi dod ar y brig mewn cystadleuaeth treftadaeth genedlaethol yn ddiweddar o ran eu gwaith ar hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion trwy ystod o brofiadau gwerthfawr.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac angerddol a chaiff ei gynorthwyo'n dda gan y dirprwy. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau'n drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn adnabod yr ysgol yn dda o ran ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu.

## Argymhellion

A1 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut i gyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion a hyrwyddo datblygiad aml ddiwylliannol a moesol disgyblion ar draws yr ysgol, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

O'u mannau cychwyn amrywiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn mewn ystod eang o fedrau. Mae datblygiad eu medrau Cymraeg llafar yn gadarn iawn.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion ac yn mwynhau gwrando ar storïau mewn sesiynau ar y cyd. Erbyn brig yr ysgol, mae medrau gwrando disgyblion yn datblygu'n gelfydd, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 6 wrando ac ystyried syniadau ei gilydd wrth drafod pwysigrwydd 'Hannuka' fel dathliad yr Iddewon.

Mae balchder bron bob disgybl at yr iaith Gymraeg yn elfen nodedig o waith yr ysgol. Maent yn siarad yn hyderus ac yn gwbl naturiol yn y Gymraeg o fewn y dosbarthiadau a thu hwnt. Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau adnabod geiriau cyfarwydd ac yn ailadrodd brawddegau syml, er enghraifft wrth ofyn ac ateb cwestiynau Siôn Corn. Erbyn Blwyddyn 2, mae medrau llafar Cymraeg bron bob disgybl yn datblygu'n gelfydd. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa briodol mewn cyd-destun, er enghraifft wrth iddynt sgwrsio'n hyderus am bwysigrwydd brwsio dannedd yn rheolaidd. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae bron bob disgybl yn mynegi eu barn yn fyrlymus a brwdfrydig, er enghraifft wrth drafod manteision ac anfanteision newid hyd y tymhorau ysgol yng Nghymru.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae bron bob disgybl yn adnabod seiniau a llythrennau yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 1, maent yn darllen ystod gynyddol o eirfa yn gywir, er enghraifft wrth ddarganfod geiriau gorchmynnol a'u hynganu'n gywir. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu medrau darllen yn y ddwy iaith yn datblygu'n gyson dda. Mae disgyblion Blwyddyn 4 yn darllen ystod o destunau ffeithiol yn hyderus wrth gywain gwybodaeth am enwogion Oes y Tuduriaid, a'r morwr Sir Francis Drake. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol i greu cofnod dyddiadur i'w ddarllen i weddill y dosbarth.

Mae medrau ysgrifennu bron bob disgybl yn datblygu'n hynod effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau marcio mewn ystod o gyd-

destunau, er enghraifft wrth archebu bwyd yn y caffi chwarae rôl. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron bob disgybl yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn adeiladu brawddegau syml gan gynnwys geiriau cyfarwydd, er enghraifft wrth ysgrifennu bwydlen iachus. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron bob disgybl yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn fedrus yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 4, maent yn dangos gafael cadarn ar batrymau sillafu cyfarwydd, ac yn defnyddio ystod briodol o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith yn llwyddiannus er mwyn ysgrifennu darnau estynedig. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn addasu eu harddull a strwythur i wahanol destunau yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu stori ddychmygus.

Ar draws yr ysgol, mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae disgyblion yn cyfri'n hyderus hyd at 10 ac yn adnabod a chyferbynnu gwrthrychau a rhifau yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael cadarn ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth gyfrifo faint o arian sydd ei angen i dalu am nwyddau mewn siop. Wrth symud drwy'r ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau mathemateg. Erbyn Blwyddyn 6, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o werth rhifau i ddau bwynt degol ac yn lluosi a rhannu rhifau tri digid yn hyderus. Maent yn defnyddio offer mathemategol yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddefnyddio onglydd i fesur maint onglau coll hyd at 360 gradd. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn amryw gyd-destunau sy'n cysylltu'n bwrpasol â'u themâu tymhorol. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio eu medrau mesur yn effeithiol wrth greu gemau bwrdd o ddeunyddiau ailgylchu ar gyfer faciwîs cyfnod y rhyfel.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio pecyn celf ddigidol yn hyderus i greu darlun dychmygol o filwr yn ystod y Rhyfel y Crimea. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn rheoli tegan rhaglenadwy yn lled annibynnol wrth deithio i wahanol siopau ym mhentref Llwyncelyn. Erbyn Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymchwilio i amrywiaeth o wefannau yn ofalus ac yn defnyddio rhaglen graffeg yn effeithiol, er enghraifft i greu llinell amser wrth gyflwyno ffeithiau diddorol am anifeiliaid diflanedig. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn mireinio eu medrau digidol yn llwyddiannus wrth lunio animeiddiadau, taenlenni a chyflwyniadau'n gelfydd. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu ystod o lyfrau digidol ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol gan ychwanegu sain a throslais yn fedrus, i ennyn eu mwynhad mewn darllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau digidol yn fwriadus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, ar ôl dysgu am ddogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn creu cyfriflenni yn effeithlon er mwyn ymchwilio i effeithiau costau byw cynyddol ar gyllidebu. O ganlyniad, mae hyn yn dwysáu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd rheolaeth arian ofalus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol a chelfyddydol yn hynod lwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio ystod o ddeunyddiau gwastraff er mwyn creu offerynnau i'w defnyddio wrth berfformio 'rap' i hyrwyddo ailgylchu. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn cyfansoddi a pherfformio dawns ddramatig yn gelfydd, er mwyn cyfleu'r bygythiad i dref Abertawe yn ystod y Blits.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau modur mawr yn effeithiol wrth ddefnyddio beiciau dwy a thair olwyn ac yn cyfrannu at weithgareddau corfforol yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau cydbwyso a chyd-symudiad yn effeithiol, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gwersi dawnsio gwerin ac actio mewn amrywiaeth o ddramâu.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob un disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae ymddygiad bron bob un yn ardderchog ac maent yn garedig tuag at ei gilydd, gan gyfarch ymwelwyr yn gyfeillgar. Mae bron bob disgybl yn falch iawn o'u hysgol ac yn awyddus i siarad yn hyderus gyda staff ac ymwelwyr am eu profiadau unigryw o fewn cymuned deuluol, gartrefol a chynhwysol sy'n bodoli ynddi. Mae hyn yn agwedd gyson a nodedig o'r ysgol.

Mae bron bob disgybl yn hyderus wrth drafod eu teimladau yn ddyddiol o fewn eu dosbarthiadau trwy flychau mynegi pryder pwrpasol ac yn esbonio'n synhwyrol fod ganddynt lefelau uchel o ymddiriedaeth mewn staff, gan ddangos parodrwydd i drafod unrhyw bryderon gyda nhw. Yn ychwanegol, maent yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ystyried eu pryderon. Mae hyn yn cyfrannu at les emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion moesol ac egwyddorol yn hynod o effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn dwysáu eu dealltwriaeth o fywydau pobl ar draws y byd wrth gasglu gwybodaeth am fwydydd, dillad a chartrefi pobl ar gyfandir Affrica. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddawnsfeydd diwylliedig amrywiol ar draws y byd, cyn eu perfformio'n hyderus o flaen cynulleidfa.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r gallu a'r hyder i drafod eu teimladau ac i ddangos empathi tuag at eraill mewn cyfyngder yn llwyddiannus. Enghraifft arbennig o hyn yw'r berthynas agos sydd gan y disgyblion gydag ysgol yn Uganda, ble maent wedi codi arian a danfon cit pêl-droed atynt. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gallu cymharu eu bywydau nhw â disgyblion Uganda yn ddeallus, ac yn ei dro, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gynhwysfawr o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus. Maent yn awyddus i arwain gwasanaethau yn rheolaidd er mwyn rhannu negeseuon am gynaliadwyedd, er enghraifft wrth drafod pwysigrwydd ailgylchu a'r effaith mae llygredd golau yn ei chael ar fyd natur. Mae bron bob disgybl yn deall sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein ac yn gwybod bod rhaid iddynt beidio â datgelu eu cyfrineiriau i bobl eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau sy'n effeithio ar eu hiechyd. Fel rhan o'u gwaith thema, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cyfansoddi rap hyrwyddo ffitrwydd yn greadigol ac yn paratoi salad ffrwythau blasus er mwyn hybu eraill i gadw'n iach. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau corfforol, er enghraifft drwy gymryd rhan yn frwdfrydig mewn sesiynau ymarfer corff a chlybiau ar ôl ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i rannu eu syniadau er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae 'Senedd yr Ysgol' yn dangos balchder yn eu rôl ac mae effaith eu gwaith i'w gweld yn glir trwy'r ysgol, er enghraifft wrth fuddsoddi mewn meinciau pwrpasol ar y buarth ar gyfer amser chwarae. O ganlyniad, mae hyn, ynghyd â'r 'bydis buarth' sy'n hynod ofalgar o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol, wedi cyfrannu'n llwyddiannus at greu awyrgylch o gyd-chwarae iach ymysg disgyblion yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth llafar ac ysgrifenedig. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r rôl y gallent ei chwarae wrth werthuso eu dysgu eu hunain neu ddysgu eu cyfoedion. Erbyn brig yr ysgol, maent yn ymfalchïo yn her y tasgau ac yn gwerthfawrogi adborth yr athrawon er mwyn gwella. O ganlyniad, maent yn gwybod sut i wneud gwelliannau i'w gwaith, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'r agweddau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus. Maent yn dangos diddordeb ac yn deall pwysigrwydd cynnal agweddau cadarnhaol at eu gwaith ac wedi eu cymell i ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio'n gyson dda gan ddangos gwydnwch wrth gwblhau tasgau. Maent yn gweithio gyda'u cyfoedion yn dda i ddatrys problemau cyn gofyn am gymorth gan oedolion, ac yn defnyddio'r strategaeth 'Tri Cyn Fi' yn llwyddiannus yn ystod sesiynau. Erbyn Blwyddyn 6, mae cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu yn y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol. Er enghraifft, mae disgyblion yn awyddus i fod yn rhan o gorau a grwpiau dawnsio gwerin llwyddiannus yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr holl staff berthynas waith agos a chynnes iawn â'r disgyblion. Maent yn trin bob disgybl gyda charedigrwydd a pharch sydd yn creu amgylchedd cynhwysol a gofalgar. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn cydweithio'n bwrpasol i feithrin agweddau cadarn dyfalbarhau a gwytnwch ymhob disgybl.

Mae athrawon yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynllunio cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n datblygu dealltwriaeth gadarn bob disgybl o'u hardal leol, hunaniaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Dewrder', mae'r staff cyfan yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddwysáu eu dealltwriaeth o ddigwyddiadau pwysig yn hanes Cymru, gan gynnwys effaith boddi pentref Capel Celyn er mwyn cyflenwi dŵr i drigolion Lerpwl. Mae'r cwricwlwm yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau mewn amryw o brofiadau diddorol ac ysgogol. Mae hyn yn cynnwys datblygu dealltwriaeth y disgyblion o faterion cyfoes byd eang, er enghraifft y rhesymau dros ryfeloedd a'r effaith maent yn ei chael ar fywydau pobl. Yn ogystal, mae cynlluniau athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau, credoau a chrefyddau eraill. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus a deallus sy'n dangos empathi a pharch at eraill.

Mae'r staff yn hyrwyddo defnydd y disgyblion o'r iaith Cymraeg yn arbennig o dda drwy ystod o brofiadau gwerthfawr. Er enghraifft, fel rhan o'u themâu, mae disgyblion

yn cael cyfleoedd pwrpasol i chwarae rôl drwy gyfweld â nifer o enwogion hanesyddol cenedlaethol a phobl ddylanwadol gyfoes. O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg a dealltwriaeth bron bob disgybl o dreftadaeth Cymru yn datblygu'n effeithiol iawn. Mae hyn yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae staff yn cynllunio ystod o ymweliadau cofiadwy iawn i ddisgyblion sy'n cysylltu'n bwrpasol â'r themâu tymhorol. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Yr Ail Ryfel Byd', mae disgyblion hynaf yr ysgol yn ymweld â mannau hanesyddol pwysig gan gynnwys tŷ Anne Frank yn Amsterdam. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol iawn ac yn hynod o werthfawr wrth ddwysáu dealltwriaeth disgyblion o elfennau pwysig o'u gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae safon yr addysgu yn gyson dda. Trwy ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol, mae'r athrawon yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae bron bob un o'r athrawon yn defnyddio technegau holi medrus sy'n effeithiol wrth adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach. Maent yn rhannu nod y sesiynau yn gyson, ac yn cynnwys y disgyblion yn bwrpasol yn y broses o bennu'r meini prawf llwyddiant ar gyfer eu dysgu. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at welliannau yn safon gwaith y disgyblion. Mae bron bob un o'r athrawon yn cynllunio'r dysgu'n bwrpasol i sicrhau bod lefel yr her i ddisgyblion yn briodol. Er hyn, nid yw'r tasgau bob amser yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau'n gynyddol annibynnol ynglŷn â sut y maent am gyflwyno eu gwaith. Ar draws yr ysgol, mae'r cynorthwywyr dysgu yn defnyddio eu medrau i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dysgu disgyblion.

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig mewn amryw o gyd-destunau bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn ysgrifennu cyfarwyddiadau i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol ar sut i edrych ar ôl eu dannedd, tra bod disgyblion Blwyddyn 4 yn ysgrifennu llythyr i ffrindiau mewn ysgol gyfagos gan gynnwys nifer o ffeithiau diddorol am eu hysgol a'u cymuned. O ganlyniad, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ysgrifennu at wahanol bwrpasau yn datblygu'n fedrus. Yn ogystal, mae cynlluniau cynhwysfawr ar waith i ddatblygu medrau rhifedd a digidol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn cynhwyso eu medrau digidol a rhifedd yn hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd er mwyn cyfrifo cost cynhwysion mewn archfarchnad leol, cyn creu a choginio pitsa fegan.

Ym mron bob un dosbarth, mae safon yr adborth ar lafar a roddir gan athrawon yn dda. Mae'n arwain y disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith ar y pryd, er enghraifft o ran ble i gynnwys ansoddeiriau i gyfoethogi'r gwaith. Mae'r arweiniad a roddir gan athrawon yn llyfrau'r disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r athrawon yn uwcholeuo elfennau o waith y disgyblion sydd angen sylw ac mae hyn yn effeithiol wrth ddangos i ddisgyblion lle y mae angen iddynt olygu eu gwaith. Mae bron bob un o'r athrawon yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ystyried ansawdd gwaith eu hunain, ac ar adegau priodol, gwaith disgyblion eraill.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus i ddatblygu ethos hapus, gofalgar a diogel yn yr ysgol. Maent yn meithrin gwerthoedd cytûn fel gofal, caredigrwydd, tegwch a pharch yn arbennig o dda a chaiff hyn ei amlygu yn agwedd gadarnhaol y disgyblion o amgylch yr ysgol. Mae'r staff yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad

disgyblion, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn hynod foesgar a charedig â'i gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae ymdeimlad cryf o Gymreictod a balchder at yr iaith sy'n sylfaen i holl waith yr ysgol. Mae'r awyrgylch deuluol hyfryd sy'n amlwg yn yr ysgol yn golygu bod disgyblion yn awyddus i fynychu, ac mae hyn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyfradd presenoldeb yr ysgol.

Mae gan y staff addysgu systemau cadarn i nodi ac olrhain disgyblion ag anghenion dysgu penodol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a'r cynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol, ac maent yn angerddol dros eu cyfrifoldebau a datblygiad disgyblion. Mae anghenion unigolion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r rhaglenni cefnogi, gan gynnwys i wella lles emosiynol a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd, yn diwallu anghenion a thargedau personol disgyblion sydd ag ADY yn llwyddiannus. Mae  perthynas agored a gonest rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n galluogi'r ysgol i ddarparu cyfle gwerthfawr i ddisgyblion elwa o gymorth targedig personol. Mae'r camau hyn yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, yn ystod eu hamser yn yr ysgol, yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau unigol.

Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion lles a chorfforol disgyblion trwy ystod o weithgareddau diddorol yn effeithiol. Yn ystod yr wythnos hyrwyddo llesiant disgyblion a staff, mae'r ysgol yn trefnu ystod o weithgareddau diddorol, fel hyfforddiant cylchol, sesiynau meddylgarwch a chlocsio. Mae trefniadau cadarn gan gynorthwywyr dysgu yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol neu emosiynol yn cael cefnogaeth gyson dda i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Trwy gyfrwng themâu diddorol ac ymweliadau addysgol, mae staff yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn hynod gelfydd. Maent yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld ag Abertawe, er enghraifft, i ddysgu am hanes a dylanwad mewnfudwyr Eidalaidd ar gymdeithas Cwm Rhondda. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned a Chymru.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol er mwyn datblygu dealltwriaeth ysbrydol a moesol disgyblion. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion arwain trafodaethau bwriadus mewn gwasanaethau am amrywiaeth o faterion, fel pwysigrwydd ailgylchu a chynaliadwyedd yn ein byd.

Mae staff yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb yn hynod effeithiol. Er enghraifft, wrth ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfansoddi a pherfformio rap bachog yn adrodd hanes a phrofiad pobl ddu dylanwadol fel Betty Campbell. Mae hyn yn helpu'r disgyblion i ddeall hawliau pobl eraill ac yn hyrwyddo agweddau iach at ddathlu amrywiaeth.

Ar draws yr ysgol, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau chwaraeon a hamdden cyfoethog. Er enghraifft, drwy gynnal ystod o glybiau chwaraeon ar ôl ysgol a gwahodd pencampwr Jiwdoca Gemau'r Gymanwlad i'r ysgol. Mae'r profiadau amrywiol hyn yn meithrin hunanhyder, yn codi eu dyheadau i'r dyfodol, ac yn datblygu medrau mynegiannol a chreadigol disgyblion yn gampus.

Trwy'r ystod dda o gynghorau disgyblion, mae'r ysgol yn achub ar gyfleoedd cyson ac arbennig i hyrwyddo llais y dysgwyr a'u datblygu'n ddinasyddion gweithgar a chyfrifol. Mae cyfleoedd gofalus i ddisgyblion ysgwyddo cyfrifoldebau ac i ddylanwadu'n gadarn ar benderfyniadau yn yr ysgol. Er enghraifft, mae 'Senedd yr Ysgol' yn gweithio'n rhagweithiol a brwd i olchi, paratoi a threfnu dillad ail-law er mwyn annog rhieni a disgyblion i ailddefnyddio gwisg ysgol. Yna, mae bob dosbarth yn ei dro yn cymryd cyfrifoldeb am redeg y siop ailgylchu dillad. Mae hyn yn sicrhau bod bron bob un disgybl yn datblygu deallusrwydd am faterion yn ymwneud â chydraddoldeb a chynhwysiant, ac yn datblygu gwerthoedd parch a thrugaredd tuag at eraill.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar waith i ddiogelu disgyblion sy'n bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r prosesau sydd ar waith. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb a phrydlondeb cyson disgyblion yn gadarn. Mae'r arweinwyr yn cysylltu â'r rhieni'n brydlon i drafod unrhyw bryder ac yn defnyddio swyddog presenoldeb a lles yr awdurdod lleol yn effeithiol, pan fydd angen.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth angerddol, ysbrydoledig a blaengar y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth gadarn sydd wedi ei seilio ar 'Gwrandewch. Fe'm ganed yma', i sicrhau bod bob disgybl yn derbyn yr addysg orau mewn amgylchedd cartrefol, Cymreig a chynhwysol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, a gyda chefnogaeth gref y dirprwy bennaeth, yn rhannu'r weledigaeth yn gelfydd gyda holl gymuned yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae diwylliant o ddisgwyliadau uchel yn amlwg, ac ethos o gydweithio agos ymhlith yr holl staff yn bodoli i wella a chryfhau'r ddarpariaeth a'r dysgu. Mae'r pennaeth yn sicrhau bod lles y staff yn ganolog i'w waith dyddiol, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu hannog a'u meithrin. Mae arweinwyr yn annog a chefnogi staff i ymchwilio ac arbrofi â'u dulliau addysgu wrth ddatblygu Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cynllunio ystod o brofiadau allgyrsiol cyfoethog i ehangu gorwelion y disgyblion o gyfleoedd sydd ar gael y tu allan i'w cymuned yn hynod gelfydd. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cydweithio'n hynod o effeithiol i ddarparu profiadau dysgu ysgogol, difyr a hynod gofiadwy sy'n diwallu anghenion bron bob un disgybl.

Un o rinweddau cryfaf bywyd a gwaith yr ysgol yw'r flaenoriaeth amlwg sy'n cael ei rhoi gan arweinwyr a staff i ddatblygu medrau Cymraeg a balchder bob disgybl o Gymru a'u treftadaeth. Mae'r ysgol wedi profi llwyddiant ysgubol a chlodwiw ar lwyfannau cenedlaethol yn y celfyddydau mynegiannol a chreadigol, er enghraifft wrth ddod yn fuddugol mewn cystadlaethau canu amrywiol, llefaru a dawnsio gwerin yn yr Eisteddfod. O ganlyniad, mae'r pennaeth a'r staff yn meithrin disgyblion uchelgeisiol, hyderus sydd â'r dyhead i sefyll ysgwydd wrth ysgwydd gyda'r gorau yn y byd.

Mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth yn effeithiol i gaffael darlun clir o berfformiad yr ysgol. Maent yn paratoi adroddiadau monitro manwl sy'n adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir. Mae

arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o'r prosesau hunanwerthuso yn llwyddiannus i osod blaenoriaethau clir ar gyfer gwelliant.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn dwyn y pennaeth a'r staff i gyfrif yn effeithiol. Maent yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda ac yn cefnogi'r ysgol yn angerddol. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau gwella'r ysgol a'r rhai cenedlaethol, ac yn cyfrannu'n werthfawr at werthuso gwaith yr ysgol trwy ystod o weithgareddau monitro. Maent hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr a staff, yn sefydlu diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol, ac maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu a ddarperir ganddynt yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Mae arweinwyr, gan gynnwys cefnogaeth fedrus aelodau o'r corff llywodraethol, yn rheoli cyllid ac yn monitro cynlluniau gwariant a'u heffaith yn drylwyr. Mae'r gwariant yn cysylltu'n glir â'r blaenoriaethau gwella. Gwneir defnydd pendant o'r grant datblygu disgyblion i sicrhau bod disgyblion bregus yn cael mynediad cyfartal at brofiadau dysgu gwerthfawr ac i wella medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion yn briodol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff yn drylwyr. Gall bob un o'r staff, gan gynnwys y cynorthwywyr dysgu, fanteisio ar gyfleoedd dysgu perthnasol, sy'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol a'u hanghenion unigol. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant yn ddiweddar, mae staff yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf wedi trawsnewid gofod eu dosbarthiadau ac wedi cryfhau'r ddarpariaeth i gyd-fynd ag egwyddorion y dysgu sylfaen a gweledigaeth cwricwlwm yr ysgol. O ganlyniad, mae'r pennaeth yn creu diwylliant cadarnhaol o hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff yn llwyddiannus.

Un o nodweddion arbennig yr ysgol yw'r cydweithio agos sy'n digwydd ag ysgolion eraill. Er enghraifft, yn dilyn datblygu prosiect ar ddathlu amrywiaeth a chydraddoldeb, sef 'Cymru Pawb. Chwalu Ffiniau', mae'r ysgol wedi derbyn y brif wobr mewn cystadleuaeth treftadaeth genedlaethol. O ganlyniad, mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n hynod lwyddiannus at ddatblygu disgyblion fel dinasyddion moesegol sy'n gwerthfawrogi bod yn perthyn i Gymru amlddiwylliannol ac amrywiol.

Mae'r arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i rieni ymweld â'r ysgol ac ymgysylltu â dysgu eu plentyn. Er enghraifft, maent yn mynychu sesiynau wythnosol i gyd-ddarllen â'u plant i gefnogi datblygiad yn eu medrau a'u mwynhad mewn darllen. O ganlyniad, mae'r perthnasoedd gweithio agos hyn yn cyfrannu at sefydlu ymdeimlad cryf o gymuned sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2024